# Cofnodion cryno - Bwrdd Taliadau

Lleoliad:

**By teleconference**

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau, 2 Ebrill 2020

Amser y cyfarfod: 09.15 - 15.10

# WRB (28)

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | Trevor Reaney<br>Ronnie Alexander<br>Michael Redhouse<br>Y Fonesig Jane Roberts (Cadeirydd Dros Dro) |
| Swyddogion: | Craig Griffiths, Cynghorydd Cyfreithiol<br>Carys Evans, Pennaeth Cymorth ac Ymgysylltu â’r Aelodau<br>Joanna Adams, AS Uwch-bartner Busnes<br>Anna Daniel, Pennaeth y Gwasanaeth Trawsnewid Strategol<br>Huw Gapper, Uwch-swyddog Newid Cyfansoddiadol<br>Matthew Richards, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol<br>Martin Jennings, y Gwasanaeth Ymchwil |
| Ysgrifenyddiaeth: | Lleu Williams (Clerc)<br>Dan Collier (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Dros Dro aelodau’r Bwrdd i’r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan y Fonesig Dawn Primarolo. Dymunodd y Bwrdd yn dda iddi yn ystod ei habsenoldeb. Dewiswyd Jane Roberts fel Cadeirydd Dros Dro ar gyfer y cyfarfod hwn.

1.3 Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.4 Roedd y Bwrdd yn dymuno diolch i swyddogion am drefnu cyfarfod heddiw dan yr amgylchiadau presennol.

1.5 Cytunodd y Bwrdd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Chwefror yn gofnod cywir.

1.6 Nododd y Bwrdd ohebiaeth y Comisiwn yn ymwneud â chostau offer swyddfa a ariennir yn ganolog. Cytunodd y Bwrdd i drafod paper arall ar y mater yn ei gyfarfod nesaf.

1.7 Nododd y Bwrdd fod y Comisiwn yn adolygu rheolau yn ymwneud â defnyddio adnoddau'r Cynulliad a nododd y bydd Clerc y Cynulliad yn cysylltu â Chadeirydd y Bwrdd ynglŷn â'r diwygiadau a gynigiwyd.

1.8 Nododd y Bwrdd fod y Cynulliad wedi canslo ei gynlluniau i gynnal wythnos o fusnes yng ngogledd-ddwyrain Cymru ym mis Mehefin 2020. Cytunodd y Bwrdd y gallai ei benderfyniad blaenorol, y dylai'r nifer gyfyngedig o deithiau dwyffordd gan staff cymorth a amlinellwyd yn y Penderfyniad gael eu defnyddio rhwng etholaeth/rhanbarth yr Aelod a'r lleoliad yng ngogledd-ddwyrain Cymru, fod yn gymwys o hyd pe bai'r wythnos yn cael ei haildrefnu.

1.9 Cytunodd y Bwrdd i drafod y mater hwn ymhellach yn ei gyfarfod nesaf.

1.10 Trafododd y Bwrdd wybodaeth a roddwyd am Covid-19. Mewn ymateb i newidiadau a wnaed gan y Cynulliad, cytunodd y Bwrdd y byddai'n rhesymol darparu lwfans deiliad swydd ychwanegol ar gyfer rôl y Darpar Lywydd Dros Dro, ond nid rôl Cadeirydd Dros Dro y Cyfarfod Llawn.

1.11 Gwnaeth y Bwrdd nodi a chytuno ar ei flaenraglen waith ar gyfer gweddill ei dymor.

1.12 Nododd y Bwrdd y gallai fod yn ofynnol iddo gynnal ei gyfarfod ym mis Mai drwy ddulliau rhithwir. Cytunodd y Bwrdd hefyd i adolygu yn nes at y dyddiad a ddylid bwrw ymlaen â'r cyfarfodydd Grŵp Cynrychiolwyr a drefnwyd.

**Camau gweithredu:**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi cofnodion cyfarfod mis Chwefror.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i baratoi papur ar gostau offer swyddfa a ariennir yn ganolog.
- Yr ysgrifenyddiaeth i baratoi opsiynau ar gyfer diogelwch gwybodaeth i'r Bwrdd.

## 2 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Cefnogi Aelodau o ran Covid-19

1.1 Trafododd y Bwrdd ei opsiynau mewn perthynas â chefnogi'r Aelodau wrth ymateb i argyfwng Covid-19.

1.2 Cytunodd y Bwrdd i beidio â darparu costau swyddfa ychwanegol ar hyn o bryd, ond i adolygu'r sefyllfa'n gyson.

1.3 Cytunodd y Bwrdd i barhau â'r status quo ar gyfer y ddarpariaeth staffio am y tro.

1.4 Cytunodd y Bwrdd i drafod sefydlu lwfans canolog i ariannu lwfans gweithio gartref ar gyfer staff cymorth, yn seiliedig ar gyfraddau Cyllid a Thollau EM. Nododd y Bwrdd mai'r Aelod dan sylw fyddai'n penderfynu ei ddarparu i'w staff ai peidio.

1.5 Trafododd y Bwrdd pa ddarpariaethau pellach y gallai eu rhoi ar waith i gefnogi trefniadau gweithio hyblyg. Cytunodd y Bwrdd i sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl lle y bo modd, ac y byddai'n rhoi ystod o opsiynau ar waith i helpu'r Aelodau i gefnogi eu staff i weithio'n hyblyg lle y bo angen.

**Cam gweithredu:**

- Yr ysgrifenyddiaeth i baratoi llythyr at yr Aelodau a'r staff cymorth yn amlinellu penderfyniadau'r Bwrdd.

## 3 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Newid i Weithdrefnau Disgyblu a Chwyno'r staff cymorth

1.1 Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a gafwyd i'w ymgynghoriad. Penderfynodd y Bwrdd weithredu'r newidiadau i Weithdrefnau Disgyblu a Chwyno'r staff cymorth. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r newidiadau ddod i rym ar unwaith.

**Cam gweithredu:**

- Yr ysgrifenyddiaeth i ddiwygio'r Gweithdrefnau a'u cyflwyno i'r Aelodau a'r staff cymorth.

## 4 Eitem i wneud penderfyniad yn ei chylch: Adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad

1.1 Trafododd y Bwrdd yr ymatebion a gafodd i'w ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft ar gyfer y Chweched Senedd. Nododd y Bwrdd ei ddiolch i'r rhai a gyflwynodd ymatebion. Trafododd y Bwrdd yr holl ymatebion a'r opsiynau'n fanwl.

1.2 Nododd y Bwrdd ei fwriad, pe bai'r amgylchiadau'n caniatáu, i gyhoeddi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd erbyn diwedd mis Mai 2020.

**Cam gweithredu:**

- Yr ysgrifenyddiaeth i baratoi'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Senedd a'r adroddiad cysylltiedig er mwyn i'r Bwrdd gytuno arno.